

DOLEN Y TAB – 2

1 – 2 Mai 2020

Dolen y Tab

Yn absenoldeb y daflen wythnosol fel cyfrwng hwylus i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau, diolchiadau ac ati, awgrymwyd llunio cylchlythyr wythnosol i aelodau'r Tabernacl a'i ledaenu trwy gyfrwng e-bost, a hefyd ar Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Cofiwch anfon unrhyw newyddion sydd gennych i'w rannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk neu ffonio 01443 225205.

JANE ERYL

Dymuna Gary a Siân fynegi eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth gan aelodau a chyfeillion y Tabernacl. Maent am i bawb wybod bod y negeseuon, y cardiau a'r galwadau ffôn wedi bod o gysur mawr iawn iddynt.

Bydd cyfle eto i dalu teyrnged a dathlu ei bywyd, ond yn y cyfamser dymunwn ddiolch i Gary a Siân am roi eu caniatâd i ni gyhoeddi englyn coffa hyfryd Glenys Roberts er cof am Jane Eryl:

'Rôl oes o leddfu loesau – a'i haniau
yn ennaint calonnau,
un ennyd gawsom ninnau
yn wiw rodd fydd yn parhau.

YN EISIAU: CYDLYNYDD SAFLE

Am gyfnod o dros dair blynedd, bu Caroline Rees yn gyfrifol am dderbyn ceisiadau i hurio'r capel a'r ganolfan a throsglwyddo'r wybodaeth am bob gweithgarwch i Ioan Rees, y Gofalwr Safle, ar ddechrau pob wythnos. Fel eglwys rydym yn hynod o ddiolchgar i Caroline am ei gwaith ac am greu system effeithiol iawn fel bod modd cyflawni'r gwaith o unrhyw fan yng Nghymru, a thu hwnt, diolch i'r ffôn symudol. Rhoddodd wybod ar ddechrau'r flwyddyn ei bod yn dymuno cael ei rhyddhau o'i dyletswyddau yn y gwanwyn ac felly mae Pwyllgor y Meddiannau yn chwilio am olynydd iddi. Carem glywed gan unrhyw un sy'n barod i ystyried ymgymryd â'r gwaith hwn ar ein rhan. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Mike West 01443 206833 / mikealynwest@yahoo.co.uk, neu Gwilym Huws 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk.

APÊL MADAGASGAR

Byddwch yn cofio i'r Tabernacl godi £3,000 yn ystod 2018/19 tuag at apêl Undeb yr Annibynwyr. Cawsom wybod gan yr Undeb yn ddiweddar bod cyfanswm o £158,675 wedi ei godi ledled Cymru i helpu gwaith y pedair elusen ym Madagasgar y cytunwyd i'w noddi.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 2020

Fel y byddech yn disgwyl, mae argyfwng y Coronavirus wedi newid trefniadaeth Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a'r gobaith ydy cynnal yr ymgyrch codi arian flynyddol yn yr hydref.

Yn cyfamser, mae CC wedi lansio apêl frys mewn ymgais i leihau effaith Coronavirus ar rai o gymunedau mwyaf bregus y byd, sydd eisoes yn wynebu prinder dŵr, bwyd, a gofal iechyd ac yn byw gyda chyflyrau iechyd bygythiol, fel HIV.

Maen nhw'n helpu ffoaduriaid Rohingya mewn gwerysilloedd ffoaduriaid gorlawn yn Bangladesh. Maen nhw'n sicrhau dosbarthu bwyd yn ddiogel i bobl ddigartref mewn gwerysilloedd yn Nigeria. Fel bob amser, mae CC yn defnyddio rhwydweithiau gyda phartneriaid lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y bobl mwyaf bregus.

Eisoes eleni bu ymateb syfrdanol i'n casgliadau lleol, yn sgil argyfyngau'r llifogydd a'r Banc Bwyd. Dyma ein cyfle i ymestyn allan at gymunedau argyfyngus y byd. Mae gan y Tabernacl draddodiad hir o gefnogaeth anrhydeddus i ymgyrchoedd Cymorth Cristnogol. Teimlwn yn sicr na fydd eleni'n wahanol.

Mae modd i chi anfon sieciau'n daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan amgáu nodyn yn dweud Cymorth Cristnogol, at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. **Neu** gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Cymorth Cristnogol yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod: **Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf. Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499.** Bydd y casgliad yn weithredol tan ddiwedd mis Mai.

Diolch o galon i chi, unwaith eto,
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

DATHLIADAU 150

Mae'n anodd credu bod tri mis wedi mynd heibio ers i ni lansio 'blwyddyn o ddathliadau' yng nghwmni Don Llewelyn ar ddiwrnod olaf mis Ionawr. Afraid dweud bod y digwyddiadau oedd i'w cynnal fory, 2 Mai, sef taith gerdded yn olrhain hanes cynnar yr achos, a sgwrs gan Dr Gareth Edwards am ei fagwraeth ym mhentref Efail Isaf yn y 1940au a'r 1950au ar 8 Mai, wedi eu gohirio am y tro. Fel mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, mae peth ansicrwydd hefyd a fydd modd i ni gyd-addoli fel cynulleidfa ar Sul cyntaf mis Gorffennaf, sef y Sul sy'n cyfateb i ail-agor y Tabernacl ym 1870.

DAL ATI I OBEITHIO

'Maes o law fe gawn ni fel eglwys fynd yn ôl i'n hadeiladau, ond gobeithio y byddwn wedi dysgu rhywbeth gwerthfawr o'r profiadau. Nid cadw adeilad ar agor sy'n bwysig ond cadw'n calonnau ar agor i Dduw a'r Ysbryd, a chadw'n calonnau ar agor i'n gilydd ac i'r anghenus o'n cwmpas. Dyna ydy bod yn eglwys mewn gwirionedd.'

Geiriau'r Parchedig Casi Jones mewn oedfa ar-lein.